GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (FFAIR-FACH I GYLCHFAN LLANDEILO, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU A THERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng Ffair-fach a Chylchfan Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o gyffordd y fân gylchfan â'r A476 yn Ffair-fach hyd at ei chysylltiad â Chylchfan yr A40 yn Llandeilo;

ii. gosod terfyn cyflymder 10 mya (ac eithrio unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys) ar y darn o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn i.

Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd sy'n teithio tua'r gogledd o Ffair-fach fydd ymuno â'r A476 a mynd i gyfeiriad y de-orllewin i Cross Hands, yna ar yr A48 i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin i Gaerfyrddin ac yna dychwelyd ar yr A40 i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain hyd at y man cau wrth Gylchfan Llandeilo. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de o Gylchfan Llandeilo.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol (ac eithrio ar ddyddiau Sadwrn a dyddiau Sul), rhwng 18:00 o'r gloch a 23:00 o'r gloch, o 21 Chwefror 2022 hyd 15 Mawrth 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Bydd mynediad i gerddwyr i bob eiddo o fewn ardaloedd y ffordd sydd ar gau ar gael ar bob adeg, drwy drefniant â'r Contractwr.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

THE A483 TRUNK ROAD (FFAIRFACH TO LLANDEILO ROUNDABOUT, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND 10 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Ffairfach and Llandeilo Roundabout in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from the mini roundabout junction with the A476 at Ffairfach to its connection with the A40 Roundabout at Llandeilo;

ii. impose a 10 mph speed limit (other than any vehicle being used by the emergency services) on the length of the A483 trunk road described at i. above.

The alternative route for all northbound vehicles from Ffairfach will be to join the A476 and proceed in a south westerly direction to Crosshands, then the A48 in a generally westerly direction to Carmarthen and then return on the A40 in a generally easterly direction to the point of closure at Llandeilo Roundabout. Vice versa for southbound vehicles from Llandeilo Roundabout.

The temporary prohibition and restriction, which will be signed accordingly, are expected to operate on an intermittent basis (excluding Saturdays and Sundays) between 18:00 hours and 23:00 hours, from 21 February 2022 until 15 March 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Pedestrian access to all properties within the areas of the road closures will be maintained at all times by arrangement with the Contractor.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government